**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/08331/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

3 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref ynghylch Deiseb P-05-926 ynghylch darparu Adran Blinder Cronig yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith y mae blinder cronig, y cyfeirir ato'n aml fel ME/CFS (enseffalopathi myalgig / syndrom blinder cronig), yn ei chael ar fywydau unigolion ac mae wedi sefydlu grŵp llywio cenedlaethol i ystyried pa gefnogaeth bellach y gellir ei chynnig ac i rannu arferion da. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r byrddau iechyd, defnyddwyr gwasanaeth, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymorth gwirfoddol a Llywodraeth Cymru.

Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i unigolion sy'n byw â ME/CFS. Mae gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wasanaeth ME/CFS pwrpasol. Yn y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd eraill, mae gwasanaethau ME/CFS yn cyd-fynd â gwasanaethau poen. Er enghraifft, mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys wasanaeth rheoli poen a blinder. Mae gan fyrddau iechyd yr opsiwn hefyd i ddefnyddio canolfannau sy'n arbenigo mewn ME/CFS, gan ddibynnu ar eu lleoliad. Gall clinigwyr yn y De, er enghraifft, gyfeirio cleifion at y ganolfan ar gyfer gwasanaethau blinder yng Nghaerfaddon (*The Bath Centre for Fatigue Services*). Mae disgwyl i glinigwyr ddilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal wrth ofalu am bobl ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu darparu gwasanaeth arbenigol pwrpasol. Dylai'r driniaeth hon gael ei darparu gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n meddu ar sgiliau priodol, lle bynnag y maent wedi eu lleoli.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gyda staff y GIG a defnyddwyr gwasanaethau ar sawl canllaw yn ymwneud â chyflyrau hirdymor.
Ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer staff a chleifion yn ymwneud â byw gyda phoen parhaus, sy'n un o symptomau cyffredin ME/CFS. Mae'r canllawiau ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
https://llyw.cymru/pobl-sydd-mewn-poen-yn-barhaus-canllawiau. Mae canllawiau ar gyfer arthritis a chyflyrau cysylltiedig hefyd yn cael eu datblygu a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

Bydd y grŵp llywio ME/CFS yn edrych ar y ddwy ddogfen ganllaw hyn ac yn ystyried pa mor berthnasol ydynt i gleifion o fewn eu cylch gwaith.

O ran yr awgrym yn y ddeiseb nad oes modd cynnal ymchwil heb adran Blinder Cronig, nid yw hyn yn dechnegol gywir. Mae’n bosibl y gallai bodolaeth clinig arbenigol ym maes unrhyw glefyd helpu i dynnu mwy o sylw at y cyflwr a chynyddu gallu a phrofiad a fyddai o gymorth i ddatblygu gwaith ymchwil cydweithredol. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau ymchwil y byddai modd i ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn ME gyflwyno ceisiadau iddynt.

O ran trwyth Myers, rydym yn disgwyl i’r GIG ddilyn canllawiau sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dreialon sydd wedi’u dylunio’n dda ar gyfer therapi maethiad mewnwythiennol dos uchel, ac nid oes tystiolaeth gref ychwaith i ddangos ei fod yn effeithiol wrth reoli poen cronig neu gyflyrau cysylltiedig.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services